| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 20 Hydref 2011 |
| **TEITL** | Adroddiad Cyrhaeddiad y Cyngor 2010/11 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo’r ddogfen fel adlewyrchiad cywir, teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella, ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2010/11, a’i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Gwasanaeth Strategol a Gwella |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo’r ddogfen |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Cyngor i gyhoeddi cynllun sydd yn crynhoi ei brif gynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac hefyd i adrodd ar berfformiad y Cyngor ar ei amcanion gwella, sef y prif welliannau a dangosyddion am y flwyddyn a fu.

Mabwysiadwyd Cynllun Tair Blynedd newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2011/14 gan y Cyngor llawn ym mis Mai eleni. Mae’n amlinellu ein amcanion gwella ar gyfer y tair blynedd i ddod ac felly yn cyflawni’r gofyn cyntaf o ran amlinellu prif gynlluniau’r Cyngor.

Mae’r ddogfen sydd ynghlwm i’r adroddiad hwn yn ddrafft terfynol o’r ddogfen a fydd yn cyflawni’r ail ofyniad o ran adrodd ar berfformiad 2010/11. Mae felly yn adrodd ar beth sydd wedi ei gyflawni a beth a lithrodd yn ystod y flwyddyn honno.

1.2 Yn unol â’r gofynion, mae angen i’r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Cyngor ar faterion yn y Cynllun Tair Blynedd.

## 2. Y CYNNWYS

2.1 Mae‘r adroddiad yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella, a holl welliannau a dangosyddion y Cynllun Tair Blynedd at ddiwedd 2010/11.

2.2 Mae’r adroddiad hefyd yn ceisio crynhoi perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau’r Cynllun mewn ffurf naratif trwy roi disgrifiad byr o gyrhaeddiad yn ystod 2010/11. Gwneir hyn ar gyfer yr Amcanion Gwella sydd yn y Cynllun ar hyn o bryd. Noder fod 2010/11 wedi bod yn flwyddyn trawsnewidiol gan y Cyngor wrth ddatblygu trefniadaeth

mewnol a symud tuag at well ffocws ar ganlyniadau'r gweithgareddau gan eu pecynnu o fewn rhaglenni mwy integredig.

Yn ychwanegol, ceir asesiad manwl fesul cynllun, gan gynnwys esboniad o'r camau gweithredu lle bu llithriadau ar ddiwedd 2010/11. Er mwyn sicrhau fod y cyngor yn atebol am ei berfformiad, ac yn cyhoeddi asesiad cytbwys o'r cyrhaeddiad, penderfynwyd asesu'r cynydd yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

**Gwyrdd** – gwelliant wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn/ dangosydd wedi cwrdd â tharged cronnus y flwyddyn.

**Ambr** – Wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni'r deilliant/ perfformiad y dangosydd o fewn goddefiant.

**Coch** – Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn/ dangosydd nad yw wedi cwrdd â tharged cronnus y flwyddyn.

.

2.3 Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi derbyn peth beirniadaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddwy elfen o'r adroddiad cyrhaeddiad:-

- Pa mor ddarllenadwy yw'r adroddiad, gan gofio bod crynodeb cyhoeddus o'r ddogfen yn cael ei pharatoi ac am gael ei ddosbarthu fel rhan o Newyddion Gwynedd.
- Bod angen bod yn fwy cytbwys wrth adrodd ar berfformiad, gan ddarparu sylwadau ychwanegol i esbonio arwyddocâd ac effaith unrhyw fethiant i gyflawni targedau

2.4 Cafodd yr adroddiad a'r materion uchod sylw yng nghyfarfod y Prif Bwyllgor Craffu ar y 6ed o Hydref.

2.5 Oherwydd yr amserlen ar gyfer anfon agenda'r Cyngor, adroddir ar unrhyw sylwadau gan Fwrdd y Cyngor yn y cyfarfod.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Cyngor:

(a) gymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2010/11, a'i fabwysiadu.

(b) Awdurdodi'r Pennaeth Adran Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol i sicrhau cywirdeb cyn cyhoeddi'r adroddiad.